

BLOG BRO

Shwmae cyd ddisgyblion Bro Myrddin! Rydyn ni'n gobeithio eich bod wedi mynhau eich gwyliau Haf hir, bendigedig ac yn barod am dymor newydd yn joio ac wrth gwrs, barod i weithio'n galed.

Croeso i flog newydd sbon Prif Swyddogion y Chweched Dosbarth. Byddwn ni'n cyfrannu'n fisol at y blog hwn yn rhannu gwybodaeth wrth sôn am ein profiadau wrth i ni dreulio ein blwyddyn olaf yn yr ysgol. Cewch gip olwg ar ein helyntion ni ar y daith. Rydyn yn gobeithio trefnu llu o weithgareddau hwyl i chi yn ystod y flwyddyn hon.

Fis Medi, aeth 29 o Flwyddyn 13 fel swyddogion i flwyddyn 7 yn Llangrannog. Roedd hi'n dridie' braf a llawn hwyl a sbri. Cafwyd gweithgareddau megis y cwrs antur, rhaffau uchel, merlota, adeiladu tîm, sgiio a gwibgartio. Roedd y Sioe Dalent yn lwyddiant mawr yn enwedig i'r dosbarth buddugol 7-5 gyda'r swogs gorau (Aled Rosser, Lowri Luxton, Lowri Butterworth, Llyr Fairburn a Sioned Jones!) yn ymuno yn y dawnsio disgo arbennig.

Roedd yna ddisgo gwych gyda ein DJ gwadd Megan Henry wrth y decs yn darparu cerddoriaeth o bob math a chadw'r egni i fynd am dair awr! Fe ddychwelon ni i'r ysgol ar ddydd Gwener, wedi blino'n rhacs ac yn barod i gysgu tan ddydd Llun! Mwynhewch y lluniau!!!!

